

Y mddengys Eglwys Hodgeston yn y llyfrau hanes yn y drydedd ganrif ar ddeg, pan adeiladwyd y corff o leiaf, ond mae presenoldeb bedyddfaen Normanaidd dda, gydag addurn endoredig, yn dynodi dyddiad sefydlu cynharach. Yn cael ei ddisgrifio fel ‘Capel Rhydd’ yn yr Oesoedd Canol – hynny yw, eglwys gyda hawliau eglwys plwyf ond heb gael ei statws – nid oes ganddi unrhyw gysegrriad hysbys, rhywbeth nad yw’n nodwedd anghyffredin i gapeliaethau o’r fath. Mae’n amlwg bod rhyw gysylltiad â’r safle sgwâr â ffos o’i amgylch gerllaw, ond mae’r hanes yn dywyll. Heddiw, saif yr eglwys yng nghanol pentref bach, a daeth dan ofal y Friends of Friendless Churches yn y flwyddyn 2000. Mae’n debyg mai mab mwyaf adnabyddus Hodgeston oedd Thomas Young, a aned yma, ac a oedd yn rheithor yr eglwys o 1542. Yn Brotestant pybyr, bu iddo ffoi dramor yn ystod teyrnasiad Mari I, gan ddychwelyd i fod yn esgob Tyddewi am gyfnod byr cyn dod yn archesgob Efrog yn 1561.

Hanes

Ceir yn yr eglwys hon gorff, cangell, porth deheuol a thŵr gorllewinol, gyda hanes adeiladu yn ymestyn dros o leiaf dau gant o flynyddoedd. Mae’r corff, gyda fownt faril pigfain, wedi ei ddyddio i’r 13eg ganrif. Yn y gornel gogledd-ddwyreiniol ceir grisiau carreg serth, a oedd yn arwain at lofft y grog, bellach wedi diflannu.



Sedilia

Mae’r gangell, sydd yn debyg o ran hyd, yn adeiledd llawer mwy hynod, ac mae’n arbennig o nodedig am safon uchel y gwaith cerfio carreg yn y sedilia a’r cawg oddi mewn, ac ar y gwaith maen y tu allan. Mae addurn o’r fath, a’r gwariant mawr angenrheidiol, mewn adeilad sydd fel arall yn ddiymhongar, yn peri penbleth i haneswyr. Yr eglurhad mwyaf tebygol, a’r un a dderbynnir yn gyffredinol, yw i’r gwaith gael ei wneud gan seiri maen yn gyflogedig gan yr “esgob adeiladu” mawr yn Nhyddewi (1328–47), Henry de Gower, yn ei balas cyfagos yn Llandyfái, yn ogystal â mewn llefydd eraill yn ei esgobaeth (talodd am waith ar gapel Porth Clew, bellach yn adfail, yn Freshwater East, gerllaw). Cwblhawyd y gwaith ar yr adeilad yn y 15fed ganrif, gyda chodi’r tŵr gorllewinol cain, blaenfain, cul gyda’r rhagfur ffug corbelog.

Yr eglwys heddiw

Erbyn canol y 19eg ganrif roedd yr eglwys wedi mynd yn adfail, gyda rhai ffenestri wedi eu llenwi, a dodrefn di-nod – cofnodir yn 1851 bod y seddi wedi eu peintio yn las, a’r ffenest ddwyreiniol yn waith ‘truenus’. Dan ysgogiad yr uchelwr lleol, Iarll Cawdor, a’r Athro E. Freeman, gwnaethpwyd adnewyddiad llawn o’r eglwys yn 1856, gyda’r pensaer a ffafriai’r iarll, David Brandon, yn arwain y gwaith.



Pen corbel

Mae llawer o ymddangosiad presennol yr adeilad, gan gynnwys yr hyn yr hyn a gafodd ei alw, braidd yn anghwrtais gan y Gentleman’s Magazine, ei ‘dandy Gothic roof’, y teils Minton – nodwedd o’i waith adnewyddu – a’r porth deheuol, yn etifeddiaeth Brandon. Cafodd seddau’r côr, gwaith y pensaer Celf a Chrefft nodedig, W.D. Caroe, eu mewnforio gan y Friends of Friendless Churches o Eglwys Dewi Sant, Caerwysg, lle’r oeddent yn ddiangen.



Teilsen 19eg ganrif



Bedyddfaen Normanaidd

Eglwysi cyfagos sydd hefyd dan ofal y Friends

Sant Decuman, Rhoscrowther Eglwys ganoloesol gyda chorff a changell o'r 13eg a'r 14eg ganrif a chyda cynllun cymhleth o gapeli neu oratoriau preifat (allwedd ar gael gerllaw).

Sant Oudoceus, Llan-dawg Wedi ei hachub rhag mynd yn adfail yn 2003. Delw o'r 14eg ganrif, carreg arysgrifedig o'r 6ed ganrif ac allor idiosyncratig o dderw cerfiedig o 1882 (eglwys ar agor).



Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgyrchu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fydddech yn fodlon ymuno a'n helpu?

Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn helpu i achub eglwysi. Yn ogystal, byddwch yn derbyn tri chylchlythyr hardd, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgrysiâu, cyfarfodydd a llyfrau.




Cyfrannu

Anfonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ.

Neu ewch at y wefan.


Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysi. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.

www.friendsoffriendlesschurches.org.uk

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol   

Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097

 **FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES** 



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



Capel Rhydd Hodgeston

cyflwyniad i'w hanes

Sant Eloi, Llan-lwy Capel Cymreig bychan wedi ei adfywio a'i adnewyddu yn 1926 gan John Coates Carter gan ddefnyddio dulliau a defnyddiau lleol, a egwyddorion SPAB i'w 'adnewyddu' i fframwaith cyn-Ddiwygiad. Gwaith coed trawiadol, a gwrthgefn bron yn blentynnaidd yn ei onestrwydd (eglwys ar agor).



Sant Andras Apostol, Y Beifil Eglwys ddiymhongar yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cadw ei thu mewn atgofus yn ddiweddar yn y cyfnod Sioraidd. Pulpud wedi ei beintio a'i banelu, desg ddarllen a seddi caeedig (allwedd ar gael gerllaw).

